Cyngor Sir Ddinbych – Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol

Crynodeb o safbwynt polisi'r Cyngor mewn perthynas â:

Gosod arwyddion dros dro / heb awdurdod ar y Briffordd – Mawrth 2015

1. **<u>Cwmpas / cefndir:</u>**

Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at arwyddion dros dro / y gellir eu symud sy'n cael eu gosod ar neu ger y briffordd (**e.e. hysbysebion, byrddau A, arwyddion ar gyfer digwyddiadau ac ati).**

2. **<u>Safbwynt polisi sylfaenol mewn perthynas ag arwyddion:</u>**

Ystyriodd Pwyllgor Craffu Cymunedau'r Cyngor y testun hwn yn fanwl ar 9 Medi 2014. Ar ôl trafod y materion, gan gynnwys buddion ein busnesau lleol, roedd y pwyllgor eisiau i'r Adran Briffyrdd barhau i weithredu gyda'r canllawiau cyffredinol canlynol:

i) bod yr <u>HOLL</u> arwyddion /baneri sy'n cael effaith niweidiol ar ddiogelwch y ffordd yn cael eu tynnu o'r briffordd <u>ar unwaith</u> (h.y. beth bynnag fo'r cynnwys).

ii) Mae angen caniatâd ffurfiol i osod arwyddion cyfeirio dros dro ar y briffordd (e.e. ar gyfer digwyddiadau untro / safleoedd adeiladu / ystadau tai newydd ac ati). Mae arwyddion cyfeirio'r briffordd yn cael eu cymeradwyo / awdurdodi drwy adran Gwaith Stryd y Cyngor.

iii) Efallai y bydd arwyddion hyrwyddo sydd wedi'u lleoli'n ddiogel ar gyfer digwyddiadau cymunedol / digwyddiadau elusennol ar ddyddiad penodol yn cael eu caniatáu, yn ôl disgresiwn Cydlynydd Ardal Strydwedd lleol. Felly dylai trefnwyr DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL gysylltu â'r Cydlynydd Ardal priodol, ymlaen llaw, i gytuno ar leoliadau addas ar gyfer arwyddion o'r fath.

iv) Bydd byrddau A yn cael eu trin yn unol ag Adran 3 isod.

v) Bydd unrhyw arwyddion heb awdurdod eraill yn cael eu trin yn unol ag adran 4 isod.

vi) Ni chaniateir gosod arwyddion ymgyrchoedd gwleidyddol ar dir priffyrdd nac eiddo'r cyngor, gan gynnwys dodrefn stryd.

3. **Safbwynt polisi mewn perthynas â byrddau A:**

Hefyd, bu pwyllgor craffu'r Cyngor yn trafod 'byrddau A', ac roeddent eisiau i Adran Briffyrdd y Cyngor barhau i weithredu yn unol â'r rheolau canlynol:

i) Bydd 'byrddau A' yn cael eu caniatáu o flaen y busnes penodol y maent yn eu hysbysu yn unig. Ni fydd y cyngor yn caniatáu lleoli byrddau A mewn lleoliadau nad yw o flaen y busnes e.e. ar gorneli strydoedd agos, neu gyffyrdd agos ac ati..

ii) Mae'n rhaid cynnal isafswm o ofod pasio o 1.2 metr bob amser. Mae hynny'n ddigon i gadair olwyn neu fygi dwbl fynd heibio. Mewn rhai lleoliadau efallai y bydd angen mwy na 1.2 metr (e.e. canol trefi prysur).

iii) Ni chaiff y byrddau A fod yn ormodol o fawr. Dylent fod yn llai na metr mewn uchder. Dylai eu hedrychiad fod yn briodol ar gyfer yr ardal y maent ynddi.

4. **Safbwynt polisi mewn perthynas ag arwyddion heb awdurdod:**

Yn achos arwyddion heb awdurdod, roedd y pwyllgor craffu eisiau i'r adran briffyrdd barhau i weithio yn unol â'r egwyddorion canlynol:

i) Bydd pob hysbyseb MASNACHOL heb awdurdod yn cael ei dynnu o'r briffordd. Lle bo'n ymarferol, bydd y cyngor yn caniatáu 24 awr o rybudd cyn eu tynnu (gan roi cyfle i'r cwmnïau dynnu eu harwyddion eu hunain).

ii) Efallai y gellir caniatáu arwyddion sydd wedi'u lleoli'n ddiogel ar gyfer digwyddiadau NAD YDYNT YN FASNACHOL ar y briffordd. Fodd bynnag; mae hyn yn dibynnu'n llwyr ar ddisgresiwn y swyddog priffyrdd / strydwedd priodol. DS Mae'r eithriad hwn ar gyfer digwyddiadau cymunedol / digwyddiadau elusennol gyda dyddiad penodol yn UNIG.

iii) Os yw cwmnïau / sefydliadau / neu unigolion yn parhau i osod arwyddion heb awdurdod, ar ôl derbyn rhybudd ysgrifenedig i beidio â gwneud hynny, bydd y cyngor naill ai yn a) cyflwyno camau gorfodi ar gyfer gosod posteri'n anghyfreithlon, a /neu b) adennill costau tynnu arwyddion heb awdurdod. Bydd gwrthod talu costau tynnu arwyddion yn cael ei olrhain drwy'r llys os oes angen.

5. **Rhesymau dros Safbwynt Polisi'r Cyngor:**

Mae rhesymau da pam fod safbwynt polisi'r cyngor (a amlinellwyd uchod) wedi datblygu dros amser. Mae'r prif resymau yn cynnwys:

i) Mae arwyddion sy'n cael eu gosod ar ddodrefn stryd CSDd yn cyfrif fel gosod posteri'n anghyfreithlon, ac felly'n dor-cyfraith. Mae gan y cyngor ddyletswydd gyffredinol i dynnu eitemau sy'n cael eu gosod yn anghyfreithlon ym mharth y cyhoedd.

ii) Mae mwyafrif y busnesau a threfnwyr digwyddiadau yn talu am arwyddion priodol i arwain pobl at eu digwyddiadau (arwyddion melyn gydag ysgrifen du). Felly mae'n annheg caniatáu i rai busnesau anwybyddu'r gyfraith a /neu'r rheolau.

iii) Un o flaenoriaethau'r cyngor yw cynnal strydwedd glân a thaclus yn Sir Ddinbych. Cyn i'r cyngor fabwysiadu ei safbwynt polisi presennol, roedd busnesau yn cael hysbysebu ar y briffordd heb gyfyngiad, ar yr amod nad oedd yn amharu ar ddiogelwch. Y canlyniad oedd; nifer o arwyddion heb awdurdod, gyda chlystyrau yn datblygu, o amgylch nifer o gyffyrdd ac ar gorneli stryd. Roedd y sefyllfa yn amhosibl ei reoli, ac yn flêr iawn. Arweiniodd y diffyg camau gorfodi at osod arwyddion tebyg gan gwmnïau cystadleuol.

iv) Cydnabu pwyllgor craffu'r cyngor bod y sefyllfa allan o reolaeth, a gofyn i'r swyddogion adfer y sefyllfa. Cydnabu'r pwyllgor na ellir gadael swyddogion mewn sefyllfa lle bo'r cyngor yn dweud "ie" i un busnes, a "na" i un arall. Felly rhoddwyd cyfres glir o reolau i'r swyddogion, y gellir eu cymhwyso'n deg ac yn gyson ar draws Sir Ddinbych, heb ofn na ffafriaeth.

Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol